

POLISI PRIFYSGOL ABERTAWE AR YMGYNGHORI A GWASANAETHAU ALLANOL ERAILL

1. CYFLWYNIAD

1.1. Bwriad y Polisi hwn yw amlygu'r egwyddorion a'r gweithdrefnau sy'n rheoli Ymgynghori a Gwasanaethau Allanol eraill a ddarperir gan staff y Brifysgol.

1.2. Anogir aelodau o staff y Brifysgol i ymgymryd â gwaith Ymgynghori a Gefnogir gan y Brifysgol, a gwaith tebyg, cyhyd â nad yw'n gwrthdaro â buddiannau'r Brifysgol. Gwneir hyn oherwydd bod gwaith Ymgynghori:

1.2.1. yn meithrin cymhwysedd a phrofiad proffesiynol a/neu academaidd yr Aelod Staff ac yn gyfle am addysg barhaus y tu allan i'r byd academaidd ac ymchwil;

1.2.2. yn creu ac yn gwella'r cysylltiadau rhwng y Brifysgol a sefydliadau allanol a fydd o gymorth i'r Brifysgol mewn meysydd megis cynyddu cyfleoedd ymchwil, recriwtio myfyrwyr, a rhoi lleoliadau i fyfyrwyr, ac yn helpu'r Brifysgol i gyflawni ei chenhadaeth o ran trosglwyddo gwybodaeth i wella'r economi lleol a rhanbarthol; ac

1.2.3. mae'n gallu creu incwm ychwanegol i'r Aelod Staff a chynyddu ariannu'r Brifysgol.

1.3. Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff academaidd, staff academaidd perthynol a staff gweinyddol ar raddfa 7 ac uwch.

2. DIFFINIADAU

2.1. "Awdurdodwr" yw'r unigolyn a nodir yn y tabl isod:

Awdurdodwr	Aelod Staff
Cadeirydd y Cyngor	Is-ganghellor
Is-ganghellor	Cofrestrydd a Dirprwy Is-gangellorion
Y Dirprwy Is-ganghellor perthnasol	Penaethiaid Colegau neu Benaethiaid Sefydliadau
Cofrestrydd	Uwch Weinyddwyr a Phenaethiaid Adrannau nad ydynt yn rhan o Goleg
Penaethiaid Coleg	Staff academaidd, ymchwil, technegol, a staff sy'n ymwneud â'r byd academaidd, ac aelodau eraill o staff y mae Pennaeth y Coleg perthnasol yn rheolwr llinell arnynt
Penaethiaid Sefydliad	Staff y mae Pennaeth y Sefydliad perthnasol yn rheolwr llinell arnynt
Uwch Weinyddwr	Is-ganghellor

2.2. "Ymgynghori", yn gyffredinol, yw cymhwyso gwybodaeth, arbenigedd, a sgiliau presennol. Mae'n cynnwys gweithgareddau eraill sy'n debyg i weithgareddau ymgynghori, megis partneriaethau busnes neu berchnogaeth busnes a phenodiadau allanol, ac mae'n cynnwys ymrwymadau addysgu yr ymgymerir â hwy y tu allan i'r Brifysgol.

2.3. "Adran" yw'r Adran Ymchwil ac Arloesi.

2.4. "Cyfarwyddwr" yw Cyfarwyddwr yr Adran Ymchwil ac Arloesi.

2.5. "Gwasanaethau Allanol" yw defnydd ategol ac achlysurol o arbenigedd ac amser Aelod Staff fel y disgwylir yn arferol oddi wrth academyddion, megis traddodi darlith wadd; cyflwyno mewn cynhadledd; bod yn aelod o fwrdd ymgynghorol gwyddonol, cyngor ymchwil neu gymdeithas broffesiynol arall; neu ymgymryd â gwaith elusennol neu gymunedol.

2.6. "Polisi" yw'r Polisi hwn ar Ymgynghori a Gwasanaethau Allanol Eraill.

2.7. "Ymgynghori Preifat" yw gwaith ymgynghori a wneir ar sail gwbl bersonol a phreifat heb ddefnyddio adnoddau'r Brifysgol, enw'r Brifysgol, nac yswiriant y Brifysgol, a heb greu unrhyw rwymedigaeth i'r Brifysgol. Gwneir y gwaith mewn maes y tu allan i arbenigedd academiaidd, ymchwil, neu weinyddol yr Aelod Staff yn ei swydd yn y Brifysgol. Yn achlysurol, caiff yr Aelod Staff ymwneud ag Ymgynghori Preifat o fewn ei faes arbenigedd, cyhyd ag y bodlonir rhai amodau penodol.

2.8. "Prifysgol" yw Prifysgol Abertawe ac, yn ei chyd-destun, gallai olygu is-gwmni neu sefydliad cysylltiol a ddynodwyd yn endid addas ar gyfer ymgymryd â gweithgarwch ymgynghori.

2.9. "Ymgynghori a Gefnogir gan y Brifysgol" yw Ymgynghori a ddarperir trwy contract a gytunwyd gan y Brifysgol neu gan un o'i his-gwmniau gyda thrydydd parti, lle gwneir y gwaith ymgynghori gan Aelod Staff o fewn ei faes arbenigedd academiaidd, ymchwil, neu weinyddol. Cefnogir yr Ymgynghori hwn gan y Brifysgol, a gall gynnwys defnyddio adnoddau'r Brifysgol, megis yswiriant indemniad proffesiynol, eiddo deallusol, ac adnoddau eraill.

3.DILYSRWYDD CYFFREDINOL

Mae'r Polisi hwn yn rheoli gweithgarwch staff o ran Ymgynghori a Gwasanaethau Allanol eraill.

4. YMGYNGHORI A GEFNOGIR GAN Y BRIFYSGOL

4.1. Ni chaniateir trefniadau Ymgynghori a Gefnogir gan y Brifysgol oni bai fod y gwaith yn wahanol i unrhyw brosiect neu waith arall a wneir ar ran y Brifysgol (er mwyn atal Aelod Staff rhag cystadlu â'r Brifysgol am contractau).

4.2. Ni chaiff Aelod Staff gytuno i ddarparu gwasanaethau Ymgynghori a Gefnogir gan y Brifysgol ond gyda chydysniad ysgrifenedig yr Awdurdodwr, ac yn unol â'r amodau a thelerau a gymeradwyir gan y Cyfarwyddwr.

4.3. Ni chaiff yr Awdurdodwr gymeradwyo gwaith ymgynghori na gwasanaethau allanol eraill oni bai fod modd gwneud y gwaith heb amharu ar ddyletswyddau academiaidd, ymchwil, neu weinyddol yr Aelod Staff, ac oni bai na fydd effaith negyddol ar lwyth gwaith aelodau eraill o staff. Mae pob Coleg, neu Adran nad yw'n rhan o Goleg, yn gyfrifol am gofnodi'r dyddiau y mae Aelod Staff yn ymwneud â gwaith Ymgynghori.

4.4. Ni chaniateir treulio mwy na 30 diwrnod y flwyddyn yn gwneud gwaith Ymgynghori a Gefnogir gan y Brifysgol.

4.5. Mae angen cymeradwyaeth y Cyfarwyddwr i sicrhau cydymffurfiaeth â'r canllawiau ar adennill costau, diogelu Eiddo Deallusol y Brifysgol, a phriodoldeb telerau'r contract, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud ag atebolrwydd ac Eiddo Deallusol.

4.6. Fel arfer, seilir y tâl am ddefnyddio adnoddau'r Brifysgol ar gost lawn yr adnoddau fel y'i pennir gan yr Adran, ac fel y cytunir arni gan yr Aelod Staff a'r Awdurdodwr.

4.7. Yn ei ddoethineb, caiff y Cyfarwyddwr wrthod cefnogaeth y Brifysgol i'r gwaith Ymgynghori, ond caniatáu i'r Aelod Staff wneud y gwaith ar sail Ymgynghori Preifat. Mewn achos o'r fath, rhaid i'r Aelod Staff gydymffurfio â gofynion Cymal 6.

4.8. Pan fydd yr Awdurdodwr neu'r Cyfarwyddwr yn gwrthod caniatáu i'r Aelod Staff ddarparu'r Ymgynghori a Gefnogir gan y Brifysgol, caiff yr Aelod Staff apelio yn ysgrifenedig i'r Cofrestrydd. Bydd gan y Cofrestrydd ddisgresiwn eang i ddatrys problemau o ran Ymgynghori, a chaiff benodi aelod annibynnol o'r Staff Uwch i adolygu'r penderfyniad.

4.9. Heb gyfiawnhad, ni chaniateir Ymgynghori a Gefnogir gan y Brifysgol yn yr amgylchiadau canlynol:

4.9.1. pan fydd y gwasanaethau Ymgynghori'n cefnogi prosiectau, megis prosiectau ymchwil, a gynhelir gan y Brifysgol; neu

4.9.2. pan fyddai'r fath Ymgynghori yn atal y Brifysgol neu ei staff, dan delerau contract, rhag ymwneud ag ymchwil arall neu waith Ymgynghori arall.

4.10. Pan fydd y gwaith Ymgynghori'n gofyn am gyflwyno tystiolaeth arbenigol mewn Llysoedd Barn, mewn Cyflafareddiadau, neu i Bwyllgorau Seneddol, ni chaniateir ymgymryd â'r gwaith Ymgynghori heb gymeradwyaeth benodol gan Gyngor Prifysgol Abertawe. Mae gan y Brifysgol ffurflen "Cais am Ganiatâd i fod yn Dyst Arbenigol", a rhaid i hon gael ei llofnodi gan yr Aelod Staff a'r Awdurdodwr, a chael ei chymeradwyo gan y Cyngor.

4.11. Wrth ymgymryd ag Ymgynghori a Gefnogir gan y Brifysgol, indemnir yr Aelod Staff am y gwaith a wneir yn unol â thelerau Yswiriant Indemnïad Proffesiynol y Brifysgol. Ni ddarperir y fath yswiriant ar gyfer Ymgynghori Preifat (gweler Cymal 6 isod).

4.12. Rhaid i Aelodau Staff ddatgan, bob blwyddyn, yn eu Datgeliad Buddiannau Allanol, faint o ddyddiau a dreuliyd ar wasanaethau Ymgynghori a Gefnogir gan y Brifysgol, a rhaid iddynt gydymffurfio â holl bolisïau perthnasol y Brifysgol, megis y rheiny sy'n ymwneud â gwrthdrawiadau buddiannau neu eiddo deallusol.

5. TALIADAU AR GYFER YMGYNGHORI A GEFNOGIR GAN Y BRIFYSGOL

5.1. Rhennir incwm o waith Ymgynghori a Gefnogir gan y Brifysgol fel a ganlyn:

- 1) Bydd y Brifysgol yn derbyn 20 y cant o'r incwm gros yn ffi ar gyfer rheoli'r Ymgynghori a darparu cymorth y Brifysgol.
- 2) Bydd y Coleg, neu'r Adran nad yw'n rhan o Goleg, yn derbyn pump y cant o'r incwm gros yn ffi weinyddol.
- 3) Telir holl gostau'r prosiect o'r gweddill. Gall y fath dreuliau gynnwys, er enghraifft, taliadau i isgcontractwyr, costau caffael, rhoi cyflenwadau ar brydles, nwyddau traul, a ffioedd am ddefnyddio adnoddau'r Brifysgol, gan gynnwys ffioedd mainc.

4) Telir y gweddill i'r Aelod Staff.

5.2. Telir ffioedd staff, ar gais yr Aelod Staff:

5.2.1. trwy ddull electronig trwy system gyflogres ganolog y Brifysgol, yn amodol ar ddiidyniadau addas ar gyfer Talu Wrth Ennill ac Yswiriant Gwladol (cyfraniad y cyflogai a chyfraniad y cyflogwr - dylid cynnwys cost cyfraniad y cyflogwr yn y ffi ar gyfer yr Ymgynghori);

5.2.2. i gyfrif a enwyd yn y Brifysgol i'w defnyddio ar gyfer unrhyw weithgarwch dilys y Brifysgol (er enghraifft mynychu cynadleddau, prynu cyfarpar), ond dan yr amod y penderfynir sut i wario'r arian yn y cyfrif trwy gynllun busnes y Coleg neu'r Adran nad yw'n rhan o Goleg; neu

5.2.3. gros, os bodlonir un o'r amodau canlynol:

- 1) mae'r Aelod Staff wedi cofrestru'n hunangyflogedig gyda Chyllid y Wlad; neu
- 2) mae'r Aelod Staff yn gweithredu trwy gwmni cyfyngedig; neu
- 3) mae'r archwilydd treth perthnasol wedi awdurdodi, yn ysgrifenedig, gwneud taliadau'n uniongyrchol i'r Aelod Staff heb ddiidyniadau Talu wrth Ennill neu Yswiriant Gwladol.

Cyfrifoldeb yr Aelod Staff yw darparu'r hyn y bydd y Brifysgol yn unig yn tybio ei fod yn dystiolaeth foddhaol i'r amodau yng Nghymal 5.2.3 gael eu bodloni.

6. YMGYNGHORI PREIFAT

6.1. Rhaid hysbysu'r Awdurdodwr a'r Cyfarwyddwr am unrhyw waith Ymgynghori Preifat, a chael eu cymeradwyaeth, i sicrhau cydymffurfiaeth â Chymal 6.

6.2 Oni awdurdodir hynny, yn unol â Chymal 4.7 neu Gymal 4.8, ni chaiff Aelod Staff ymgymryd ag Ymgynghori Preifat ond mewn maes y tu allan i faes yr arbenigedd academaidd, ymchwil, neu weinyddol y'i cyflogir amdano yn y Brifysgol.

6.3. Ym mhob achos, mae'n rhaid i'r aelod staff gael cymeradwyaeth yr Awdurdodwr a'r Cyfarwyddwr. Ni roddir y fath gymeradwyaeth oni fodlonir pob un o'r amodau canlynol:

6.3.1. Mae'r Awdurdodwr wedi penderfynu bod modd ymgymryd â'r Ymgynghori heb amharu ar ddyletswyddau academaidd, ymchwil, neu weinyddol yr Aelod Staff, ac na fydd effaith negyddol ar lwyth gwaith staff eraill.

6.3.2 Nid yw gwasanaethau'r Ymgynghori o fewn arbenigeddau academaidd, ymchwil, neu weinyddol y cyflogir yr Aelod Staff i'w cyflawni, neu mae'r Cyfarwyddwr wedi cymeradwyo bod modd ymgymryd â'r Ymgynghori fel Ymgynghori Preifat.

6.3.3. Mae'r Aelod Staff yn hysbysu'r cleient, ac mae'r cleient yn cytuno mewn ysgrifen o'r cychwyn cyntaf, bod y gwaith i'w wneud ar sail bersonol, ac na fydd unrhyw rwymedigaeth ar y Brifysgol am y gwaith. Rhaid i'r cleient a'r Aelod Staff lofnodi ffurflen indemniad, yn gwadu ymwneud y Brifysgol â'r gwaith, ac unrhyw rwymedigaeth ar y Brifysgol. Bydd yr indemniad ar ffurf a bennir gan yr Adran.

6.3.4. Heblaw am ar y ffurflen indemniad, ni ddefnyddir enw'r Brifysgol, ac ni fydd enw'r Brifysgol yn ymddangos, ar unrhyw ddogfen (megis papur pennawd, ar negeseuon e-bost,

ar dudalennau gwe, neu gyfryngau electronig eraill) mewn cysylltiad â'r Ymgynghori Preifat, a rhaid sicrhau nad oes unrhyw awgrym, neu ddatganiad llafar neu mewn ysgrifen, bod y Brifysgol yn cefnogi'r Ymgynghori.

6.3.5. Ni ddefnyddir adnoddau'r Brifysgol, megis labordai, ystafelloedd cyfarfod, offer TG, meddalwedd, cronfeydd data, neu e-bost yn yr Ymgynghori Preifat.

6.3.6. Mae'r Aelod Staff yn derbyn cyfrifoldeb cyfreithiol ac ariannol llawn am y gweithgarwch, gan gynnwys gofynion yswiriant, a'r holl dreth a thaliadau eraill sy'n ddyledus ar yr hyn a delir iddo. Ni fydd y Brifysgol yn darparu indemniad proffesiynol nac yswiriant arall ar gyfer Ymgynghori Preifat.

6.4. Mae'r gwaharddiadau a fynegwyd yn y cymal hwn ac yn y darpariaethau sy'n ddilys ar gyfer Ymgynghori Preifat yn hanfodol i ddiogelu'r Brifysgol rhag atebolrwydd, i ddiogelu eiddo deallusol y Brifysgol ac i sicrhau cydymffurfio â'r Polisi Gwrthdrawiadau Buddiannau. Felly, mae gweithredu'n groes i'r ddarpariaeth hon yn sail ar gyfer camau gweithredu disgyblaethol.

7.GWASANAETHAU ALLANOL NAD YW'R POLISI HWN YN BERTHNASOL IDDYNT

7.1 Nid yw'r Polisi hwn yn ddilys ar gyfer Gwasanaethau Allanol fel y'u diffinnir yng Nghymal 2.5 ac nid yw'r incwm o'r fath Wasanaethau Allanol yn ddarostyngedig i'r rheolau ar ddyrannu rhwng y Brifysgol a'r Aelod Staff.

7.2. Bydd datblygu defnyddiau dysgu ac academiaidd, a chyhoeddiadau eraill (llyfrau ac erthyglau) fel rhan o waith Ymgynghori'n dod o dan Bolisi Prifysgol Abertawe ar Eiddo Deallusol, Cymal 4.

7.3. Nid yw'r Polisi hwn yn rheoli Ymgynghori a wneir gan, neu ar ran, y Brifysgol neu ei Cholegau, neu Adrannau nad ydynt yn rhan o Goleg.

8. Adrodd

Rhaid i Aelodau Staff gyflwyno adroddiad blynyddol i'w Hawdurdodwyr am Ymgynghori a Gwasanaethau Allanol, ac, i'r graddau angenrheidiol, wneud datgeliadau fel mae'r Polisi Gwrthdrawiadau Buddiannau neu'r Polisi Datgelu Buddiannau Allanol yn gofyn.

9.GWEITHREDU'R POLISI A GWEITHDREFNAU

9.1. Cyfrifoldeb yr Is-ganghellor yw gweithredu'r Polisi hwn, a chaiff ddirprwyo'r cyfrifoldeb i unigolyn arall.

9.2. Caiff y Pwyllgor Cyllid fabwysiadu Gweithdrefnau cyhyd â nad ydynt yn anghyson â'r Polisi.

9.3. Bydd gan yr Adran Ymchwil ac Arloesi awdurdod a disgresiwn eang o fewn terfynau (1) Siarter y Brifysgol ac unrhyw Reoliadau, Ordinhadau neu ddarpariaethau eraill y Cyngor, (2) y Polisi hwn, (3) unrhyw weithdrefnau a fabwysidir gan y Pwyllgor Cyllid, ac (4) unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan, neu ar ran, yr Is-ganghellor, i fabwysiadu prosesau gweinyddol, arweiniad, ffurflenni, a dehongliadau fel bo angen er mwyn rhoi'r Polisi hwn ac unrhyw weithdrefnau a fabwysidir ar waith.

